**Cyngor Prifysgol Cymru**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 1.00p.m. ddydd Iau 8 Gorffennaf 2021 drwy Zoom

Yn bresennol:
Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Margaret Evans
Andrew Curl
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Arwel Ellis Owen
Dr Stuart Robb
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Deris Williams

Hefyd yn bresennol:
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 21.21 Ymddiheuriadau am absenoldeb | DERBYNIODD y Cyngor ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Dylan Jones a Gavin Bessant. | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 21.22<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD Cyngor PC y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (UWC183). | |
| 21.23<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021 | CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion Anghyfyngedig a Chyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Mawrth 2021 fel cofnod cywir (UWC184). | |
| 21.24<br>Materion sy'n codi a phwyntiau gweithredu | DERBYNIODD y Cyngor y tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (UWC185).<br><br>Codwyd y mater canlynol:<br><br><u>Adroddiad interim PC i ASA a CCAUC</u><br>Gofynnodd aelodau a oedd y Brifysgol wedi derbyn unrhyw adborth ar eu hadroddiad.<br><br>Adroddodd y DIG(A) fod CCAUC wedi cytuno na fyddai adolygiadau pellach yn cael eu cynnal ond byddai'n parhau i fonitro niferoedd o fewn partneriaethau. | |
| 21.25<br>Adroddiad y Pwyllgor Academaidd 19 Mai 2021 | YSTYRIODD Cyngor PC adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd 19 Mai 2021 (UWC186).<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y gwaith da sy'n cael ei wneud gan Gyfarwyddwr Gwasg PC a Chyfarwyddwr newydd CAWCS.<br><br>Gofynnodd aelodau a oedd pwyllgor ymgynghorol newydd ar gyfer CAWCS wedi'i sefydlu. Adroddodd yr Is-Ganghellor ei fod wedi derbyn rhestr o enwau gan Gyfarwyddwr y Ganolfan a fyddai'n cael ei hystyried maes o law gan y Senedd. | |
| 21.26<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng NGHOFNODION CYFYNGEDIG y cyfarfod. | |
| 21.27<br>Adroddiad Pwyllgor Craffu'r Grŵp | DERBYNIODD Cyngor PC adroddiad cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Grŵp a gynhaliwyd 14 Mehefin 2021 (UWC188). | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Adroddodd y Cadeirydd fod Pwyllgor Craffu'r Grŵp wedi ystyried yr adroddiad blynyddol cyntaf ynghylch is-gwmnïau, a roddai wybodaeth ynghylch sefydlu a diddymu cwmnïau, ynghyd â gwybodaeth am gyfansoddiad a gweithgareddau cwmnïau cyfredol.<br><br>Ystyriodd Pwyllgor Craffu'r Grŵp gyfres o argymhellion ynghylch trefniadau'r dyfodol. Parthed AWEN Cymru, roedd wedi argymell penodi yr Hybarch Randolph Thomas a Nigel Roberts yn gyfarwyddwyr. | |
| 21.28<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | DERBYNIODD Cyngor PC adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 24 Mehefin a 30 Mehefin 2021 (UWC189). | |
| 21.29<br>Cyllideb PC 2021/22 a Rhagolygon | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng NGHOFNODION CYFYNGEDIG y cyfarfod. | |
| 21.30<br>Adroddiad y Bwrdd Academaidd | YSTYRIODD Cyngor PC adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 (UWC191).<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at waith eithriadol swyddogion ynghylch cwblhau'r addysgu yn achos partneriaethau a'r lleihad o ran risg yn dilyn hynny. | |
| 21.31<br>Cyfarwyddwyr Awen Cymru | CYMERADWYODD Cyngor PC benodi'r Hybarch Randolph Thomas a Nigel Roberts yn gyfarwyddwyr Awen Cymru Cyf (UWC192). | |
| 21. 32<br>Sêl y Brifysgol | YSTYRIODD Cyngor PC yr adroddiad ar Sêl y Brifysgol (UWC193).<br><br>Adroddodd y Clerc mai'r Is-Ganghellor, dan Ordinhad 29, a oedd yn gyfrifol i'r Cyngor am ddiogelwch y Sêl ac am gynnal rhestr o bobl oedd wedi'u hawdurdodi i weithredu'r Sêl. Roedd yr Is-Ganghellor wedi cynghori bod y rhestr o bobl wedi cael ei diwygio i ddarllen fel a ganlyn:<br><br>• Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor<br>• Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)<br>• Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
| --- | --- | --- |
| | • Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y defnydd o Sêl Prifysgol Cymru fel y'i nodir yn UWC193. | |
| 21.33<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 21.34<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Medi 2021/. | |
| | | |

Daeth y cyfarfod i ben am 13.10